Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

16 Hydref 2023

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADOLYGIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: 'ADOLYGIAD O ARWEINYDDIAETH A THREFNIADAU LLYWODRAETHU'R GWASANAETH HEDDLU AR GYFER MATERION YN YMWNEUD Â HIL'

Mae'r adolygiad hwn yn nodi'r trefniadau arwain a llywodraethu ar gyfer materion yn ymwneud â hil yng ngwasanaethau'r heddlu. Canfu'r adolygiad fod y trefniadau arwain a llywodraethu ar gyfer hil yn aneglur. Mae'r Swyddfa Gartref o'r farn mai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu sy'n gyfrifol am y maes hwn a bod cymhlethdod y Cyngor a'i bortffolios a'i bwyllgorau cydlynu amrywiol yn cyfyngu ar ei allu i gynnal gweithgarwch gwella. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod meysydd calonogol, yn benodol yng Nghymru ac o ran y Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru.

Fel y cydnabuwyd yn ymchwiliad MacPherson ac unwaith eto yn fwy diweddar yn adolygiad Casey, mae problem systematig mewn perthynas â hil ym maes plismona. Mae fy swyddfa, ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill yng Nghymru, wedi ymrwymo i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru er mwyn llywio newid a lleihau niwed. Fel y cyfryw, nodaf yr argymhellion yn yr adolygiad hwn a byddaf yn cysylltu'r meysydd hyn â'n gwaith craffu a goruchwylio yn Heddlu De Cymru.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn awyddus i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu a phontydd eu hadeiladu â grwpiau hil ar yr ymylon, sydd wedi cael eu siomi gan y maes plismona yn rhy hir. Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl Bacon yn crynhoi ei barn ar yr adroddiad fel a ganlyn:

'Mae Heddlu De Cymru yn croesawu'r adolygiad hwn yn dilyn y 'Macpherson Report: Twenty-two years on', ac yn cytuno y dylai pob arolygiad a gynhelir gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi fynd i'r afael â hil o hyn ymlaen. Edrychodd yr adolygiad thematig hwn ar drefniadau arwain a llywodraethu cenedlaethol yr heddlu ar gyfer materion yn ymwneud â hil, fel rhan o gyfres o arolygiadau o hil a phlismona.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

Mae Heddlu De Cymru wedi cymhwyso'r pedwar prawf ar gyfer hiliaeth sefydliadol a nodwyd gan y Farwnes Casey yn ei hadolygiad mwyaf diweddar, sef:

- *Mae gan ein sefydliad bobl hiliol a phobl ag agweddau hiliol*
- *Mae staff yn profi hiliaeth yn y gwaith sydd naill ai'n cael ei hanwybyddu neu ei diystyru*
- *Mae hiliaeth a rhagfarn hiliol yn cael eu hatgyfnerthu yn ein systemau*
- *Nid yw'r heddlu yn amddiffyn pobl o dreftadaeth ddu yn ddigonol ac maent yn eu gorblismona.*

Mae Heddlu De Cymru wedi dod i'r casgliad bod y diffiniad yn gweddu a'i fod yn sefydliadol hiliol.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru eisoes wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu ffyrdd y gellir unioni'r pedwar prawf uchod.

Bydd Heddlu De Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod hil a phlismona yn parhau i fod yn flaenoriaeth ym mhob cynllun a gwaith craffu yn y dyfodol.
Roedd y pedwar argymhelliad yn yr adroddiad oll yn berthnasol i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona, fodd bynnag, bydd Heddlu De Cymru yn gweithio gyda nhw i sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith a'u bod yn effeithiol.'

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Dirprwy Brif Gwnstabl a'r ymrwymiad i herio hiliaeth yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Byddaf yn sicrhau bod fy swyddfa yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i'w helpu i chwalu rhwystrau a llywio'r newid sydd ei angen.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English